Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 12fed o Ebrill 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Eifion Davies (Cadeirydd), y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Robert Jones, y Cynghorydd Sir Edward Thomas, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Owen James, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Richard Wallace.
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Carol Watts

Cof 10 / Ebrill / 17 Datganiadau o Fuddiant. Dim.

Cof 11 / Ebrill / 17 Cyfrifon i'w talu

Cyfrifon i'w talu	Net	TAW	Cyfanswm
CGGC (Mawrth)	£ 20.25	£ 4.05	£ 24.30*
Zurich (yswiriant ychwanegol ar gyfer Parc Penlan)			£ 59.67*

Bacs * Siec #

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cafwyd cais gan y Cyng. Robert Jones bod y Swyddog Cyllid yn paratoi mantolen o'r digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi, i nodi'r incwm a dderbyniwyd, yn ogystal â'r gwariant. Byddai Mr Plummer yn darparu mantolen yng Nghyfarfod y Cyngor Llawn.

Cof 12 / Ebrill / 17 Incwm a dderbyniwyd ers yr 8fed o Fawrth 2017 hyd yn hyn

Rhent chwarterol YAD (1)	£ 3,297.27
Grant CSG ar gyfer Dathlu Dydd Gŵyl Dewi	£ 500.00

Cof 13 / Ebrill / 17 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 07/ 3 /17)	£ 11,332.24
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 07 / 3/17)	£ 1,917.51
Cyfrif Maer CTLl (Barclays) (07/ 3/17)	£ 1,354.65
Bond Adnau Llog Uchel	£ 30,000.00

Cof 14 / Ebrill / 17 Materion Ariannol Eraill

1. Gofynnodd y Maer am lwfans tuag at y derbyniad a drefnwyd ar gyfer ymwelwyr o Le Conquet, yn dilyn y CCB Trefeillio dros wyliau'r Pasg.
   Cynigodd y Cyng. Richard Wallace uchafswm o £150. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.

2. Roedd y Swyddog Cyllid wedi dosbarthu'r balansau Diwedd Blwyddyn, ynghyd â chrynodeb o Incwm a Gwariant.
3. Yn ogystal, roedd Mr Plummer wedi dosbarthu cyllideb ddrafft ar gyfer 2017-18. Gofynnodd i bob un o'r Cynghorwyr i graffu'r ffigyrau'n fanwl ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.
4. Roedd Mr Plummer wedi derbyn hysbysiad am ffurflen yr Archwiliad, sydd i'w chwblhau erbyn y 10fed o Orffennaf.
   Byddai'n dod â manylion pellach i'w trafod yng nghyfarfod y Cyngor Llawn, cyn i'r dogfennau gael eu hanfon i'r Archwilydd mewnol ar ddechrau mis Mai.
5. Gofynnwyd i'r Maer i ddarparu atborth ar yr Asesiad Risgiau Ariannol a'r Gofrestr Asedau ddiwygiedig.
6. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y Cyngor ddim yn cynnal y Parti yn y Parc yn 2017, oherwydd yr etholiadau Cyngor ym mis Mai, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 15 / Ebrill /17 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1. CSG, mewn perthynas â chyfleoedd newydd ar gyfer grantiau. Nodwyd. Gofynnodd y Maer i'r Clerc Tref i gysylltu ag elusen Cariad, i geisio cyfarwyddyd ar y cyfleoedd i gael grant i brynu diffibrilwyr ar gyfer y gymuned.
2. Datganiad y Bwrdd Benthyciadau Cyhoeddus. Balans presennol y benthyciad sy'n ddyledus yw £17,760.97.

Cof 16 / Ebrill / 17 Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol.

1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r rhoddion canlynol a argymhellwyd gan y Pwyllgor Cynllunio:-
   DD600PP- bod contract tymor byr yn cael ei roddi i Hugh Gwynne, i gasglu sbwriel a gwydr o Barc Penlan, unwaith yr wythnos, a reportio unrhyw berygl posib i'r Swyddog Technegol, am bris o £40 yr wythnos. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod hyn yn cael ei dderbyn, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.
   DD601PP – bod y dyfynbris o £1,395, a gyflwynwyd gan Hugh Gwynne, i waredu pridd a llysdyfiant o waelod y rheiliau'n cael ei dderbyn. Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.
   Byddai'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau fel rhan o'r gwaith cynnal a chadw a nodwyd, a byddai'n cael ei dalu amdano o'r grant cynnal a chadw a drafodwyd gyda CSG yn ystod y broses Trosglwyddo Asedau.
2. Cynigwyd bod eitem ar yr holl Oblygiadau Ariannol yn cael ei gosod ar Agenda pob cyfarfod. Fe fyddai unrhyw argymhellion ariannol sy'n cael eu gwneud gan y pwyllgorau a'r is-grwpiau'n cael eu hystyried dan yr eitem hon.

Cof 17 / Ebrill / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50yh.